

Newidiadau pwysig i Freeview

Mae newidiadau yn cael eu gwneud i'r ffordd y caiff rhai sianeli eu darlledu ar Freeview. Efallai y bydd angen i chi ail-diwnio eich offer teledu i barhau i wyllo rhaglenni pan fydd y rhain yn digwydd yn eich ardal chi. Os oes angen help arnoch gyda hyn neu os nad yw'r broses ail-diwnio yn adfer eich sianeli, gallwch ffonio Llinell Gymorth Freeview am ddim ar 0808 100 0288 a gallwch gael mwy o wybodaeth ar-lein yn www.freeview.co.uk/tvchanges. Efallai y byddwch yn gymwys am gymorth am ddim yn y cartref, gan gynnwys unrhyw waith ar yr eerial lle bo angen.

Pryd fydd y newidiadau hyn yn digwydd?

Dechreuodd y newidiadau i signalau teledu Freeview ym mis Gorffennaf 2017 a byddant yn parhau ar draws gwahanol rannau o'r DU tan 2020. Bydd negeseuon ar y sgrin yn rhoi gwybod i chi pan fydd newidiadau yn digwydd yn eich ardal chi. Gallwch hefyd weld os ydych chi'n cael eich effeithio drwy ddefnyddio gwirydd ail-diwnio Freeview yn www.freeview.co.uk/tvchanges.

Nid yw gwasanaethau lloeren a chebl yn cael eu heffeithio.

Pam mae hyn yn digwydd?

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU, mae rhai o'r tonnau awyr a ddefnyddir gan Freeview yn cael eu hail-ddosbarthu i ganiatáu ar gyfer datblygu gwasanaethau band eang symudol newydd yn y dyfodol. Mae trosglwyddyddion ar draws y DU yn cael eu diweddarau fel rhan o raglen beirianeg fawr sy'n cael ei chynnal rhwng nawr a 2020.

Cyfarwyddiadau ail-diwnio Freeview

Mae ail-diwnio eich teledu neu'ch bocs Freeview yn hawdd ac ni ddylai gymryd mwy nag ychydig funudau. Bydd yr union broses yn gwahaniaethu rhywfaint rhwng modelau a mathau gwahanol o focsys.

Cam 1 Gwasgwch 'menu' ar eich bocs neu'r teclyn newid sianel.

Cam 2 Nawr dewiswch 'set-up' 'installation', 'update' neu opsiwn debyg. Os gofynnir i chi am gyfrinair, yna'r cod gan amlaf yw 1234, 0000 neu 1111.

Cam 3 Nawr dewiswch yr opsiwn 'first time installation' (a elwir weithiau yn 'factory reset', 'full retune' neu 'default settings'). Gwasgwch 'OK' os yw eich offer yn gofyn a yw'n iawn dileu sianeli cyfredol. Bydd hyn yn clirio eich gosodiadau cyfredol ac yn dod o hyd i'r sianeli newydd. Os gofynnir i chi, arbedwch y sianeli sydd wedi'u canfod.

Yn dibynnu ar eich offer teledu efallai y bydd angen i chi ailosod eich hoff sianeli ac unrhyw beth sydd i'w recordio.

Mae fwy o wybodaeth ynglŷn ag ail-diwnio ar gael o Linell Gymorth Freeview ar rhadffôn 0808 100 0288.